O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 48 (Cy. 13)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019

Gwnaed	*7 Ionawr 2019*
Yn dod i rym	*11 Ionawr 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A487 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 11 Ionawr 2019.

2.— (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor a Chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 11 Ionawr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y i'r cyfeiriad arall pan fo system traffig unffordd yn gweithredu ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, fynd ar y i'r cyfeiriad arall pan fo system traffig unffordd yn gweithredu ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

8. Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau a Beiciwr Dros Dro

Cefnffordd yr A487

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A40 Heol Fawr.

2. Y darn o gefnffordd yr A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Hamilton Street.

Cefnffordd yr A40

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

ATODLEN 2

System Draffig
Unffordd Dros Dro

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

2. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at

ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.

ATODLEN 3

Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu ar Aros

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.

2. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

3. Y darn o'r A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 y Wesh hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.